**<u>Cofnodion Pwyllgor Clwb Mynydda Cymru a gynhaliwyd nos Lun, 28 Mai, 2025 drwy gyfrwng Zoom</u>**

**<u>Presennol</u>**: Elen (EH)**(Cadeirydd),** Iolo Roberts (IPR),Iolo ap Gwynn (IAG),Dwynwen (DP), Richard (RR), Eurig (EJ), Dilys (DAP), Steve (SW), Erwyn (ERJ), Mathew (MW), Gethin (GR)

Ymddiheuriadau: Dewi, Keith

| | | |
|---|---|---|
| **1.** | **<u>COFNODION</u>**<br><br>Derbyniwyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 13 Ionawr, 2025 fel rhai cywir.<br><br>Yn codi:<br><br><u>Eitem 4 Rhestr Offer</u><br><br>A. Defibs<br><br>Adroddwyd<br><br>i. gan DAP fod batris a phadiau newydd ar gyfer y ddau defib ym meddiant y Clwb wedi eu harchebu<br><br>ii. byddai EH yn galw yn swyddfa yswiriant NFU yng Nghaernarfon i holi am y posibilrwydd o gael yswiriant ar gyfer y peiriannau rhag difrod/colled.<br><br>C. Cyffredinol<br><br>Cytunwyd gofyn i DAP yrru'r rhestr i IAG i'w gosod ar y wefan maes o law.<br><br><u>Eitem 5 Cyfarfod Blynyddol 2024</u><br><br>C. Cymorth i Iolo gyda'r wefan -<br><br>Nodwyd nad oedd IAG A MW wedi cael cyfle i gael sgwrs hyd yma. | |
| **2.** | **<u>MATERION ARIANNOL</u>**<br><br>Cafwyd diweddariad gan DAP ynglŷn â'r sefyllfa gyfredol<br><br>Adroddodd<br><br>• bod gan y Clwb aelodaeth o 266<br>• bod gan y Clwb swm o £5,870 yn y coffrau ar hyn o bryd<br>• bydd angen talu £150, sef ffi ymaelodi blynyddol â'r Bartneriaeth Awyr Agored, ond na ellir ei dalu nes derbyn tystysgrif aelodaeth y Clwb â'r CMP a oedd yn ofynnol.<br><br>Cytunwyd nodi'r wybodaeth. | |
| **3.** | **<u>CYFARFOD BLYNYDDOL 2025</u>**<br><br>Ystyriwyd trefniadau cychwynnol ar gyfer y Cyfarfod Blynyddol eleni<br><br>Cytunwyd y dylid ceisio cynnal y cyfarfod yng Ngwesty'r Royal Oak ym Metws y Coed ar | |

<table>
<tr><td></td><td>ddydd Sadwrn 15 Tachwedd os yn bosib, gyda 22 Tachwedd fel dyddiad wrth gefn</td><td></td></tr>
<tr><td>4</td><td><u>TÂL AELODAETH 2026</u><br><br>Adroddwyd ar y materion canlynol<br><br>• mai £29.33 yw’r taliad presennol a wneir tros bob aelod gan y Clwb i’r CMP, sy’n cynnwys yswiriant.<br>• rhagwelir y bydd y swm yma yn cynyddu eto yn 2026. £25 yw tâl aelodaeth presennol y Clwb.<br>• bydd angen i’r Pwyllgor argymell i’r Cyfarfod Blynyddol y tâl aelodaeth ar gyfer 2026 a byddai’n rhaid i’r tâl adlewyrchu y taliad a wneir i’r CMP<br>• ni fydd CMP yn cyhoeddi pris eu tanysgrifiad i aelodau unigol o glybiau tan rhywbryd ym mis Medi<br>• bod aelodau’r Pwyllgor wedi gwneud ymholiadau gyda chlybiau mynydda eraill a chanfod mai’r CMP yw’r unig ffynhonnell yswiriant addas ar gyfer gweithgareddau mynydda.<br><br>Cytunwyd<br>i. ei bod yn bwysig bod y Clwb yn trefnu yswiriant ar gyfer yr aelodau ac ymddengys mai’r CMP yn unig sy’n darparu yswiriant addas ar gyfer gweithgareddau mynydda<br>ii. bod gwerth hefyd i’r Clwb fod â llais mewn corff sydd a rôl bwysig parthed gweithgareddau mynydda yng Nghymru a thu hwnt<br>iii. os bydd y CMP heb gyhoeddi pris eu tanysgrifiadau ar gyfer aelodau clybiau erbyn cyfarfod y Pwyllgor ym mis Medi y dylid cynnal cyfarfod brys rhywbryd yn mis Hydref fel y gellir gwneud argymhelliad ar dâl aelodaeth 2026 i’r Cyfarfod Blynyddol ym mis Tachwedd.</td><td></td></tr>
<tr><td>5.</td><td><u>CYNLLUNIO RHAGLEN WEITHGAREDDAU'R CLWB</u><br><br>Adroddodd RR fel a ganlyn:<br><br>• bod y rhaglen ar gyfer y cyfnod Mai i Awst bellach yn ei lle gyda 19 o deithiau ar y Sadwrn, 3 ar ddydd Mercher a thaith fisol yn y de.<br><br>• mynegodd ei ddiolch i KR am ei waith yn trefnu wythnos arall i aelodau’r Clwb yn yr Alban yn ardal y Cairngorms ym mis Mai. Roedd yr wythnos bellach yn llawn.<br><br>• bod taith flasu ar gyfer darpar aelodau ar y rhaglen, i’w chynnal ym mis Mai dan arweiniad SW<br><br>• bod gan ERJ daith ar Pumlumon ym mis Mai a hefyd bod KR yn trefnu penwythnos o weithgareddau ym Mannau Brycheiniog ym mis Gorffennaf a fyddai’n rhoi cyfle i aelodau’r de a gogledd gydgerdded.<br><br>• cafwyd ymateb da i’r diwrnod ymarfer Map a Chwmpawd a gynhaliwyd yng Nghwm Llan o dan ofal DP, Manon Davies ac EH.<br><br>• adroddodd EJ fod DH am anelu at gael dwy daith yn fisol yn y de yn ystod yr haf a bod 17 o aelodau wedi ymuno ar y daith ddiweddaraf, rhai ohonynt yn aelodau newydd.<br><br>Cytunwyd<br><br>i. diolch i RR am ei holl waith yn paratoi’r rhaglen weithgareddau ac i bawb oedd</td><td></td></tr>
</table>

| | | |
|---|---|---|
| | wedi gwirfoddoli i arwain teithiau'r Clwb<br><br>ii. dylid anelu i gael taith Map a Chwmpawd eto y flwyddyn nesaf (o bosib yn yr un ardal) a mynegwyd diolch i DP am gytuno i drefnu eto<br><br>iii croesawu y datblygiadau gyda'r gweithgareddau yn y de. | |
| **6.** | **<u>ARCHIF Y CLWB</u>**<br><br>Adroddodd SW fod y Llyfrgell Genedlaethol bellach wedi cytuno i dderbyn dogfennau archif y Clwb a'i fod wedi holi sut fath o amserlen fyddai ganddynt ar gyfer digideiddio'r archif. Byddai'n dda cael gwybod am yr amserlen gan y byddai o werth i'r Clwb petai'r archif wedi ei digideiddio erbyn 2029 pan fydd yn dathlu hanner can mlynedd ers ei sefydlu. Bydd SW yn adrodd yn ôl ar ymateb y llyfrgell.<br><br>Cytunwyd nodi'r wybodaeth a diolch i SW am ei holl waith ynglŷn â hyn. | |
| **7.** | **<u>EISTEDDFOD GENEDLAETHOL 2025</u>**<br><br>Adroddwyd<br>• fod Paula Roberts wedi cytuno i draddodi'r ddarlith eleni<br>• bod lle ar gyfer y ddarlith wedi ei logi ym Mhabell y Cymdeithasau ar ddydd Iau 7 Awst am 3yp.<br>• bod DP wedi creu poster ar gyfer y ddarlith a fydd yn ei hyrwyddo ar y gwefannau cymdeithasol.<br>• bydd RR yn arwain taith y Clwb ar ddydd Mercher yr Eisteddfod yn ardal Llangollen.<br><br>Cytunwyd<br>i. nodi'r wybodaeth a diolch i bawb am eu gwaith parthed y trefniadau uchod<br>ii. gofyn i DP lunio poster i hyrwyddo taith y Clwb hefyd<br>iii gwneud cais i holl aelodau'r Clwb helpu i hyrwyddo'r gweithgareddau hyn drwy ledaenu'r posteri ar eu gwefannau cymdeithasol personol. | |
| **8.** | **<u>MATERION CMP</u>**<br><br>A. Adroddwyd gan SW<br><br>• nad oedd cyfarfod rhanbarthol wedi ei gynnal ers hydref y llynedd ond byddai cyfarfod yn cael ei gynnal yn fuan ac felly nad oedd dim i'w adrodd ar hyn o bryd.<br>• Bod y CMP mewn cydweithrediad â'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol yn cefnogi cyflogi prentis atgyweirio llwybrau.<br><br>B. Adroddwyd gan DAP<br><br>• ei bod ar ddeall y byddai cardiau aelodaeth 2025 y CMP yn rhai electroneg ond nad oeddynt wedi cael eu dosbarthu hyd yma. Byddai'n gwneud ymholiadau i weld beth oedd y sefyllfa gyfredol.<br><br>Cytunwyd<br><br>i. nodi'r wybodaeth<br>ii. gofyn i RR, ar ôl iddo gael diweddariad gan DAP am y sefyllfa, gynnwys nodyn yn un o'i negeseuon i'r aelodau yn eu rhybuddio mai cardiau aelodaeth electroneg fydd rhai'r CMP eleni. | |
| **9.** | **<u>MATERION Y BARTNERIAETH AWYR AGORED</u>**<br><br>Gofynnodd DP am arweiniad ynglŷn â sut y dylai ymateb i geisiadau gan aelodau am gymorth | |

| | | |
|---|---|---|
| | gyda hyfforddiant o'r gronfa o £500 sydd ar gael i'r Clwb drwy'r aelodaeth o'r Bartneriaeth.<br><br>Cytunwyd<br>i. dylid rhoi blaenoriaeth i geisiadau am gymorth gan aelodau sy'n arwain teithiau gan mai hynny fyddai o'r fantais fwyaf i'r Clwb<br>ii. derbyn mai'r drefn, gan mai ond swm cyfyngedig penodol sydd ar gael gan y Bartneriaeth i gefnogi hyfforddiant, yw mai'r rhai sy'n rhoi ceisiadau yn gynnar fydd yn derbyn cymorth<br>iii. gofyn i bawb hysbysu RR os y gwelir bod unrhyw hyfforddiant mynydda o ffynonellau eraill ar gael (e.e drwy'r CMP) er mwyn lledaenu'r wybodaeth.. | |
| **10.** | **<u>POLISIAU ASESU RISG A CHANLLAWIAU TEITHIAU PRESWYL</u>**<br><br>Adolygwyd y polisiau canlynol er mwyn sicrhau eu bod yn gyfredol ac yn cwrdd â gofynion, yn unol â phenderfyniad y Pwyllgor yn y cyfarfod diwethaf:<br><br><u>Polisiau Asesu Risg.</u><br><br>Cytunwyd<br>i. fod y polisi yn cwrdd â'r gofynion ond y byddai'r canlynol yn cael ystyriaeth<br><br>A. ystyriwyd a ddylai'r polisi gyfeirio at weithgareddau dringo yn ogystal â rhai cerdded a chytunwyd gofyn i DH, sydd â rhywfaint o gefndir dringo, am ei farn ar y mater<br>B. dylid nodi yn y polisi fod y defib yn cael ei gario ar deithiau'r Clwb bellach<br>C. bod disgwyl i arweinyddion teithiau adrodd yn ôl i'r ysgrifennydd os bydd unrhyw ddamwain ar eu teithiau a bydd pob digwyddiad yn cael ei ystyried gan y Pwyllgor er mwyn gweld os oes unrhyw wers i'w dysgu<br>CH. bod gan arweinydd hawl i wrthod i unrhyw aelod ymuno ar ei daith os nad yw'r offer/dillad addas ganddynt<br>D. mai dewis yr arweinydd yw os am gario lloches ar daith<br><br>ii. gofyn i RR addasu'r polisi i adlewyrchu'r uchod a nodi y bydd yn cylchredeg y polisi gyda'r diwygiadau i aelodau'r Pwyllgor<br>iii. dylid anfon y polisi i arweinyddion teithiau ar ddechrau tymor<br><br><u>Canllawiau Teithiau Preswyl</u><br><br>Adolygwyd y canllawiau.<br><br>Cytunwyd<br>i. fod y polisi dal yn gyfredol ac yn cwrdd â'r gofynion gydag un ychwanegiad i bwynt 10<br><br>*10. Unwaith i gais am le ar daith gael ei dderbyn gan y clwb, NID OES GAN AELOD HAWL I DDERBYN AD-DALIAD AM UNRHYW RESWM, ar wahân i'r amgylchiadau canlynol:*<br>**os oes rhywun arall ar gael i lenwi'r bwlch, gellid cynnig ad-daliad llawn*<br>** os ceir ad-daliad gan y llety dan sylw yna gellir digolledu'r aelod*<br><br>ii. gan fod KR wedi trefnu nifer o deithiau preswyl y Clwb yn ddiweddar,ac heb fod yn bresennol yn y pwyllgor, dylid holi os oes ganddo unrhyw sylwadau ar y canllawiau. | |
| **11.** | **<u>CYFARFOD NESAF Y PWYLLGOR</u>**<br><br>Cytunwyd y bydd cyfarfod nesaf y Pwyllgor yn cael ei gynnal am 8pm, nos Lun 1af o Fedi, 2025, drwy gyfrwng Zoom. | |